Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Chwefror 2025

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2025** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n peri rhagfarn yn gysylltiedig ag unrhyw fater sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025 (copi ynghlwm).

5 DATGANIAD INTERIM CYNGOR SIR DDINBYCH YNGHYLCH Y DARPAR BARC CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (Tudalennau 15 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r datganiad interim drafft ar ymateb yr awdurdod i'r ymgynghoriad cyfredol ar gynnig y Parc Cenedlaethol.

6 LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24 (Tudalennau 25 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol (copi ynghlwm) yn cyflwyno Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w ystyried ac yn gofyn i'r Cabinet gytuno i adrodd yn ôl wrth yr Ombwdsmon ynghlwm ag unrhyw ystyriaethau a chamau arfaethedig o ganlyniad i'r Llythyr Blynyddol.

7 DIWEDDARU RHEOLAU'R WEITHDREFN GONTRACTAU (Tudalennau 47 - 126)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol (copi ynghlwm) yn manylu ar newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Gontractau i gyd-fynd â Deddf Caffael 2023 er mwyn gallu parhau i gydymffurfio wrth gaffael ar draws y Cyngor.

8 ASESIAD PERFFORMIAD PANEL CYNGOR SIR DDINBYCH – ADRODDIAD AC YMATEB (Tudalennau 127 - 160)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet adolygu a chymeradwyo ymateb statudol y Cyngor i adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd ac argymell yr un fath i'r Cyngor ei gymeradwyo.

9 CYLLIDEB Y CYNGOR 2025/26 (Tudalennau 161 - 212)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i'r cynigion er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26 cyn cyfarfod y Cyngor ar 20 Chwefror 2025.

10 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 213 - 228)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

11 RHAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 229 - 234)

Derbyn Rhaglen Waith y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

12 DYFARNU CYTUNDEB GOFAL CARTREF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 235 - 290)

Ystyried adroddiad cyfrinachol ar y cyd gan y Cynghorwyr Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru fel mae'r adroddiad yn ei nodi ar ôl llwyddo i gwblhau proses Gwahoddiad Agored i Dendro er mwyn darparu Gofal Cartref i Oedolion ac i Blant a Phobl Ifanc.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Gwyneth Ellis
Elen Heaton
Alan James
Diane King
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Rhys Thomas
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned